

## Cymorth Cristnogol


A hithau'n dymor i ddiolch am y cynhaeaf ac am y digonedd yr ydan ni mor ffodus o'i gael, yr hydref hwn mae Cymorth Cristnogol yn ein hannog i feddwl am y teuluoedd ar draws y byd sy'n wynebu newyn enbyd a'r effaith difrifol y mae hynny'n ei gael arnynt. Yn fyd-eang, mae 800 miliwn o bobl yn wynebu ansicrwydd parhaol o brinder bwyd. Dyna pam mae Cymorth Cristnogol wedi partneru hefo'r WFP (World Food Programme), sef asiantaeth ddyngarol flaenllaw sy'n ceisio mynd i'r afael â newyn ar draws y byd. Nid yn unig maen nhw'n darparu bwyd i'r rhai sydd mewn angen, ond maent hefyd yn ceisio eu grymuso i gynhyrchu eu bwyd eu hunain ar gyfer y dyfodol gan roi cefnogaeth iddyn nhw mewn meysydd tebyg i reoli adnoddau naturiol, cynhyrchu cynydau, cynhyrchu da byw, cynaeafu dwr ac i gychwyn busnesau bach. O ganlyniad i'r bartneriaeth hon, **am bob £1 a fuddsoddir yn y cynllun gan Gymorth Cristnogol, mae'r WFP yn cyfrannu £67**, felly'n cynyddu'r effaith lawer gwaith trosodd. Ond, er mwyn parhau â'r gwaith hanfodol yma, maen nhw angen ein cefnogaeth.

Os dymunwch gyfrannu tuag at y bartneriaeth hon er mwyn helpu rhai sydd llawer llai ffodus na ni, mae croeso i chi anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac fe wnawn dalu'r arian dros y we ar eich rhan. Cofiwch nodi 'Cymorth Cristnogol' ar gefn y siec, os gwelwch yn dda. Mae'r angen i ddangos gofal a chariad at eraill a chefnogi ein gilydd yn fwy amlwg fyth y dyddiau hyn. Diolch am eich cefnogaeth.

## Adnoddau

- **Os nad ydych yn defnyddio'r we, mae modd i chi wrando a gwyllo'r oedfa a ddarlledir ar y Sul ar DVD, neu gallwch wrando ar CD, neu ddarllen copi papur o'r gwasanaeth.** Rhowch wybod i Mair os byddwch yn dymuno un o'r cyfryngau yma a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwysu '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.
- **Ar gyfer plant, mae gwarsi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Adnoddau eraill:** ar wefan [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru) ac ar wefan [www.holi-cymru.org](http://www.holi-cymru.org).

# Llais Bro Aled



Dydd Sul, 4 Hydref 2020

[eglwysibroaled.com](http://eglwysibroaled.com)

[rhaglendorcas.com](http://rhaglendorcas.com)

[llanw.org](http://llanw.org)

Erbyn i chi ddarllen y rhifyn hwn o Llais Bro Aled, mae'n debyg y bydd y mwyafrif ohonom yn byw o dan y cyfyngiadau diweddaraf ar gyfer siroedd gogledd ddwyrain Cymru. Nid yw'r cam hwn yn syndod o weld y datblygiadau ar draws siroedd de Cymru'r wythnos ddiwethaf, ond mae'r cyfyngiadau yn naturiol yn siom ac yn ofid i nifer wrth i ni edrych ymlaen at y gaeaf gydag ansicrwydd. Rydym yn pendroni am gymaint o gwestiynau nad oes atebion clir iddynt ynglŷn â'r dyfodol wrth geisio ymdopi â'n sefyllfaoedd unigol. Byddwn yn clywed mynegiant cyson o bryder am ein teuluoedd, am ein cymunedau, a'n ffordd o fyw. Ond i'r Cristion, mae yna gwestiynau i ofyn i'n hunain hefyd – ydym ni'n blino ar wneud daioni (sy'n groes i Galatiaid 6:9), ac ydym ni'n barod i ymddiried yn yr Arglwydd pan nad ydym yn siŵr beth fydd yn digwydd nesaf, na phryd y bydd pethau'n digwydd? Gall ansicrwydd yn hawdd ein parlysu rhag cynorthwyo eraill, a gall ofn mewn sefyllfaoedd dryslyd ein dallu rhag sylweddoli pwy yw'r Arglwydd.

Ar ôl atgyfodiad Iesu, mae Ioan 21 yn cofnodi'r hanes amdano'n ymddangos i'w ddisgyblion a hwythau wedi dychwelyd i bysgota. I ddechrau, nid oeddynt yn ei adnabod (ad. 4). Ond o dipyn i beth, daethant i weld eto mai "Yr Arglwydd yw" (Ioan 21:7). Ac wrth iddynt dreulio mwy a mwy o amser yn ei gwmni, a chael cyfle i gyd-fwyta brechwast gydag Ef, ciliodd yr amheuan. 'Ond nid oedd neb o'r disgyblion yn beiddio gofyn iddo, "Pwy wyt ti?" Yr oeddent yn gwybod mai yr Arglwydd ydoedd.' (Ioan 21:12)

Yn y cyfnod cythryblus yr ydym yn parhau i fyw trwyddo, beth am i ni geisio adnabod Iesu'n well trwy dreulio amser yn Ei gwmni – boed hynny wrth ddarllen a myfyrio ar y Beibl, trwy gyfrwng adnoddau addoliad amrywiol, neu trwy siarad ag Ef mewn gweddi? Wrth gael ein harwain gan yr Ysbryd Glân i wrando ar Dduw, sylweddolwn nad yw wedi cilio oddi wrthym. Mae'r Groes a'r Atgyfodiad yn arwydd clir nad yw'r Arglwydd wedi troi cefn arnom, a bod Iesu'n parhau i deyrnasu a gweinidogaethu i'w bobl heddiw, ac am byth. Ac felly dylem annog ein hunain a'n gilydd i droi ato heddiw, a phob yfory sy'n dod wedyn, mewn hyder gostyngedig gan ddilyn cyngor y Salmdd: 'Disgwyl wrth yr Arglwydd, bydd gryf a gwrol dy galon a disgwyl wrth yr Arglwydd.' (Salm 27:14)

## Cyhoeddiadau'r Fro

Sul yma – 4<sup>ydd</sup>

(a hefyd  
11<sup>eg</sup> a'r  
18<sup>fed</sup>)

### • Ysgol Sul ar-lein

Cynhelir Ysgol Sul ar ZOOM am 10.30. Ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled neu Fro Dinbych i gael mwy o fanylion.

### • Oedfa FYW ar y we

Cynhelir oedfa fyw ar y we am 10:30 o dan arweiniad Rhodri. Gallwch ymuno â'r oedfa o dudalen flaen gwefan Eglwysi Bro Aled. (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)

### • Sgwrs ar ZOOM

Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno i gael sgwrs ar ZOOM. (Bydd y manylion cysylltu yn cael ei ebostio i bawb sy'n derbyn Llais Bro Aled dydd Sadwrn. Os bydd unrhyw un arall eisiau'r manylion, anfonwch neges i Mair, os gwelwch yn dda.)

### • Cwrs Alfa Ieuentid

Bydd Eglwysi Bro Aled a Bro Dinbych yn rhedeg Cwrs Alfa i'r Ifanc ([www.alpha.org/youth](http://www.alpha.org/youth)) yn lle CIC tan y Nadolig. Bydd y cwrs yn gyfle i bobl ifanc (oed uwchradd) gael amser i sgwrsio, cymdeithasu a gofyn cwestiynau am fywyd, y Beibl, Iesu ac unrhyw beth arall! **Bydd y cyfarfod cyntaf nos Lun, 5 Hydref** (ar ZOOM), a bydd o leiaf dau arweinydd yn bresennol gyda'r ieuentid. Os hoffech ymuno, ewch i dudalen Facebook Eglwysi Bro Aled lle medr rhiant neu ofalwr lenwi ffurflen ar-lein ar eich rhan er mwyn cofrestru. Gallwn wedyn anfon rhagor o wybodaeth i chi dros ebost.

### • Cwrs Alfa Oedolion

Bydd y cwrs Alfa oedolion yn parhau i gyfarfod ar ZOOM.

### • Cyfarfod Gweddi

Er nad oes modd, oherwydd y cyfyngiadau presennol i gynnal Cyfarfod Gweddi arferol yr Ofalaeth, rydym yn naturiol yn parhau i weddio dros wahanol sefyllfaoedd a thros y rhai sydd mewn angen. Mae croeso i unrhyw un ohonoch i ymuno yn y Cyfarfod Gweddi fydd yn cael ei gynnal **nos Fercher, 7 Hydref am 7:30 yr hwyr**, eto ar ZOOM. Byddwn yn cyfarfod o hyn allan bob pythefnos. Holwch Rhodri i gael y manylion cysylltu ac/neu os oes gennych unrhyw geisiadau gweddi.

Llun – 5<sup>ed</sup>

Mawrth – 6<sup>ed</sup>

Mercher – 7<sup>fed</sup>

Sul – 11<sup>eg</sup>

(Gweler manylion dydd Sul, 4 Hydref)

Llun – 12<sup>fed</sup>

• **Cwrs Alfa Ieuentid** (ar ZOOM)

Mawrth – 13<sup>eg</sup>

• **Cwrs Alfa Oedolion** (ar ZOOM)

Mercher – 14<sup>eg</sup>

• **Grwpiau Tai** (ar ZOOM)

Sul – 18<sup>fed</sup>

(Gweler manylion dydd Sul, 4 Hydref)

## Cofion a Chydymdeimlad

Gyda thristwch y daeth y newydd yr wythnos ddiwethaf am farwolaeth Mrs Betty Evans (Llansannan). Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i merch Brenda Evans (Llansannan) a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod Duw yn ei holl ddaioni yn cysgodi drostynt yn eu galar a'u hiraeth.

Anfonwn ein cofion at Ann Pierce (Cefn Meiriadog) yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen. Diolchwn fod y cyfan wedi mynd yn ddi-helynt ac am y gofal arbennig a gafodd yno. Cofiwn hefyd am John H. Williams (Llanefydd) sy'n cael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, ac Emily Williams (Groes) a Glyn Davies (Saron) dreuliodd ychydig ddyddiau yn yr ysbyty yn ddiweddar. Cyflwynwn hwy oll i ofal tyner ein Duw a gweddiwn am adferiad iechyd buan iawn iddynt.

Deallwn fod Edna Evans (Llanfair) bellach wedi mynd i gartref Coed Môr, Abergele. Gweddiwn y bydd yn profi adferiad a dedwyddwch yno dros yr wythnosau nesaf. Anfonwn ein cofion hefyd at ein cyfeillion eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Mair Williams (Llansannan); a Mrs Gwenllian Jones a Mrs Gwyneth Griffiths (Henllan). Cyflwynwn hwythau hefyd i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo eu hamgylchynu gyda thrugaredd a daioni.

*Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych chi angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.*

## Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 [rhodri@eglwysibroaled.com](mailto:rhodri@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870522 📞 07814 660291

Mair – 📧 [mair@eglwysibroaled.com](mailto:mair@eglwysibroaled.com) ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)

Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher (14<sup>eg</sup>), os gwelwch yn dda.